



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Ymgynghoriad ynghylch Gweithredu'r Cytundeb ar Safonau Rhyngwladol ar gyfer Trapio heb Greulondeb.

Cynigion ar gyfer gweithredu, ac asesiad o'r effaith

19 Mawrth 2018



(h) Hawlfraint y Goron 2017

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, yn unol â thelerau Trwydded Llywodraeth Agored f.3. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i ni yn

consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Diben yr ymgynghoriad hwn	1
3.	Dogfennau perthnasol	2
4.	Cefndir	2
4.1.	Ein rhwymedigaethau	4
4.2.	Gweithredu ledled y DU	4
5.	Cynnig ar gyfer Gweithredu	4
5.1.	Mecanwaith deddfwriaethol	4
5.2.	Trapiau dal yn fyw.....	6
5.3.	Trapiau marwol	8
5.4.	Trapiau marwol amlrywogaeth.....	12
5.5.	Gofynion hyfforddi.....	13
5.6.	Gofynion i weithgynhyrchwyr	14
6.	Effeithiau.....	15
6.1.	Yr asesiad o'r effaith	16
7.	Casglu tystiolaeth	17
8.	Ymateb	19
8.1.	Pwy fydd â diddordeb mewn ymateb?	19
8.2.	Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn	19
8.3.	Cyfrinachedd a diogelu data	20
8.4.	Y camau nesaf	21

1. Cyflwyniad

1. Mae'r DU wedi ymrwymo i les anifeiliaid ers amser maith. Mae'r llywodraeth hon yn ymrwymedig i gynnal a gwella safonau lles anifeiliaid wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd. Yn hanesyddol, bu'r DU ar flaen y gad o ran tueddiadau rhyngwladol ynglŷn â thrapio heb greulondeb, gan wahardd trapiau sy'n dal y goes a sefydlu system gymeradwyo ar gyfer trapiau sbring yn 1954.
2. Yn 1997, lluniodd yr Undeb Ewropeaidd (UE) ddau gytundeb rhyngwladol er mwyn pennu safonau trapio heb greulondeb a hwyluso masnach mewn ffwr a chynhyrchion ffwr. Mae rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaethau'r UE o dan gyfraith Ewropeaidd¹ i sicrhau bod y Cytundeb ar Safonau Rhyngwladol ar gyfer Trapio heb Greulondeb (y Cytundeb) yn cael ei weithredu.
3. Rydym yn cynnig y dylid gweithredu'r Cytundeb. Ei nod yw sicrhau lefel ddigonol o les i anifeiliaid sy'n cael eu trapio drwy ei gwneud yn ofynnol i Bartion wahardd trapiau nad ydynt yn cyrraedd safonau trapio heb greulondeb a ragnodir a sicrhau bod trapwyr yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio dulliau trapio diogel ac effeithiol nad ydynt yn achosi creulondeb. Mae'n cwmpasu trapio anifeiliaid am amrywiaeth o resymau gwahanol ac mae'n gymwys i 19 o rywogaethau sy'n cael eu trapio oherwydd eu ffwr, nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn bresennol ar hyn o bryd yn y DU. Mae'r Cytundeb yn cwmpasu pob trap, gan gynnwys trapiau cawell.
4. Ar 23 Mehefin 2016, cynhaliwyd refferendwm yr UE a phleidleisiodd pobl y Deyrnas Unedig o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Hyd nes bod cyd-drafodaethau gadael wedi dod i ben, erys y DU yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd ac mae pob un o hawliau a rhwymedigaethau aelodaeth o'r UE yn parhau mewn grym. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y llywodraeth yn parhau i gyd-drafod, gweithredu a chymhwyso deddfwriaeth yr UE. Bydd canlyniad y cyd-drafodaethau yn pennu pa drefniadau fydd yn gymwys mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE ar ôl i'r DU adael yr UE.

2. Diben yr ymgynghoriad hwn

5. Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar gynigion ynglŷn â sut y caiff y Cytundeb ei weithredu yn y DU er mwyn gwella lles anifeiliaid penodol sy'n cael eu trapio, a hefyd gasglu gwybodaeth am gyflenwi, defnyddio a marcio trapiau er mwyn llywio ein hasesiad o'r effaith yn well.

¹ Gweler Erthygl 216(2) o'r Cytuniad ar Weithredu'r UE, sy'n datgan 'Agreements concluded by the Union are binding upon the institutions of the Union and on its Member States'.

6. Mae ein cynigion ar gyfer gweithredu yn anelu at leihau effeithiau i'r eithaf ar y trapwyr a'r gweithgynhyrchwyr hynny y bydd angen iddynt ymateb i ofynion y Cytundeb. Rydym yn ceisio barn ar ein cynigion ac adborth ar effeithiau posibl.
7. Yn yr asesiad o'r effaith, gwnaethom rai tybiaethau allweddol y mae angen eu profi yn ystod yr ymgynghoriad.

3. Dogfennau perthnasol

8. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys:
 - a. y ddogfen ymgynghori hon
 - b. asesiad o'r effaith
9. Cyn ymateb i'r cwestiynau a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon, rydym yn argymhell eich bod yn darllen pob un o'r dogfennau hyn.
10. Gallwch weld y dogfennau hyn yn: <https://consult.defra.gov.uk/wildlife-management/implementing-aihts-humane-trapping/>

4. Cefndir

11. Yn 1997, lluniodd yr Undeb Ewropeaidd (UE) ddau gytundeb rhyngwladol er mwyn pennu safonau trapio heb greulondeb a hwyluso masnach mewn ffwr a chynhyrchion ffwr.² Drwy bennu safonau rhyngwladol, mae'r cytundebau hyn yn caniatáu i Ganada, Ffederasiwn Rwsia ac UDA fewnforio crwyn a nwyddau a weithgynhyrchir o rywogaethau penodol o anifeiliaid gwyllt i'r UE.
12. Mae'r ddau gytundeb yn sylweddol debyg. Er hwylustod, dim ond at weithredu'r Cytundeb ar Safonau Rhyngwladol ar gyfer Trapio Heb Greulondeb y bydd yr ymgynghoriad hwn yn cyfeirio, ond, wrth wneud hynny, byddwn hefyd yn bodloni ein gofynion o dan y cytundeb ar wahân rhwng yr UE ac UDA.
13. Cadarnhaodd yr UE y Cytundeb yn 1998, yna Ganada yn 1999 a Ffederasiwn Rwsia yn 2008, a ganiataodd i'r Cytundeb ddod i rym ym mis Gorffennaf 2008 ac mae'r amserlen ar gyfer gweithredu ei ddarpariaethau yn dechrau o'r dyddiad hwnnw. Rhwng mis Mehefin 1999 a mis Gorffennaf 2008, cytunodd yr UE a

² Cymeradwywyd y cytundeb cyntaf, sef y Cytundeb ar Safonau Rhyngwladol ar gyfer Trapio heb Greulondeb, rhwng yr UE, Canada a Ffederasiwn Rwsia gan Benderfyniad y Cyngor 98/142/EC. Mae'r ail (a gymeradwywyd gan Benderfyniad y Cyngor 98/487/EC) yn gytundeb tebyg ar ffurf cofnod cytûn rhwng Unol Daleithiau America a'r UE.

Chanada i gymhwyso'r Cytundeb ar sail dros dro tra'n aros iddo gael ei gadarnhau'n ffurfiol gan Ffederasiwn Rwsia.

14. Mae'r Cytundeb yn cwmpasu trapio anifeiliaid am amrywiaeth o resymau gwahanol ac mae'n gymwys i 19 o rywogaethau sy'n cael eu trapio, nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn frodorol i'r DU. Mae'r Cytundeb yn cwmpasu pob trap, gan gynnwys trapiau cawell.
15. O blith y 19 o rywogaethau'r Cytundeb, dim ond pump sy'n bresennol yn y gwyllt yn y DU:
 - Mochyn Daear Ewropeaidd, *Meles meles*
 - Afancod Ewropeaidd, *Castor fiber*
 - Dyfrgwn Ewropeaidd, *Lutra lutra*
 - Beleod, *Martes martes*
 - Carlymod, *Mustela ermine*
16. O blith y rhain, dim ond carlymod sy'n cael eu trapio'n rheolaidd ac ar raddfa helaeth yn y DU a hon yw'r unig rywogaeth y defnyddir trapiau lladd (marwol) fel arfer i'w dal. Caiff y pedair rhywogaeth arall eu trapio'n llai aml at ddibenion cadwraeth, rheoli clefyd neu atal difrod, gan ddefnyddio trapiau dal yn fyw (nad ydynt yn farwol).
17. Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU sefydlu prosesau priodol ar gyfer profi ac ardystio trapiau yn unol â'r safonau trapio heb greulondeb ("y Safonau") a amlinellir yn y Cytundeb.
18. Mae'n rhaid inni wahardd defnyddio trapiau nad ydynt wedi'u hardystio'n rhai sy'n cyrraedd y Safonau. Fodd bynnag, nid yw'r Cytundeb yn atal unigolion rhag adeiladu na defnyddio eu trapiau na'u maglau eu hunain, cyhyd â bod trapiau o'r fath yn cydymffurfio â dyluniadau a gymeradwywyd gan yr awdurdod cymwys perthnasol. Dylai'r trapiau hyn sy'n cael eu hadeiladu gan unigolion fod yn drapiau cartref syml at ddefnydd personol y sawl sy'n eu hadeiladu.
19. Mae'r Cytundeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchwyr 'nodi' trapiau ardystiedig a rhoi cyfarwyddiadau i'w lleoli'n briodol, eu gweithredu'n ddiogel a'u cynnal a'u cadw. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i drapwyr gael eu hyfforddi i ddefnyddio dulliau trapio diogel ac effeithiol nad ydynt yn achosi creulondeb, gan gynnwys dulliau newydd wrth i'r rhain gael eu datblygu.
20. Ar adeg mewnfario, efallai y bydd Partïon yn gofyn am dystysgrif tarddiad sy'n ardystio bod crwyn a chynhyrchion penodol eraill sy'n dod o rywogaethau'r Cytundeb yn tarddu o diriogaeth un o Bartïon eraill y Cytundeb.

4.1. Ein rhwymedigaethau

21. Mae rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaethau'r UE i weithredu gofynion y Cytundeb a'r terfyn amser ar gyfer gwneud hynny oedd 22 Gorffennaf 2016. Ar 23 Mehefin 2016, cynhaliwyd refferendwm yr UE a phleidleisiodd pobl y Deyrnas Unedig o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Hyd nes bod cyd-drafodaethau gadael wedi dod i ben, erys y DU yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd ac mae pob un o hawliau a rhwymedigaethau aelodaeth o'r UE yn parhau mewn grym.
22. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y llywodraeth yn parhau i gyd-drafod, gweithredu a chymhwysu deddfwriaeth yr UE. Bydd canlyniad y cyd-drafodaethau hyn yn pennu pa drefniadau fydd yn gymwys mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE yn y dyfodol ar ôl i'r DU adael yr UE.
23. Yn sgil y bleidlais o blaid gadael yr UE, ailgadarnhaodd Gweinidogion Defra ymrwymiad y llywodraeth i weithredu'r Cytundeb ac i ymrwymo i'r Cytundeb ar ôl gadael yr UE.

4.2. Gweithredu ledled y DU

24. Ymgynghoriad ar gyfer y DU yw hwn. Bydd Rheoliadau a wneir mewn perthynas â Chymru, Lloegr a'r Alban yn rhoi'r Cytundeb ar waith drwy ddiwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Bydd Gogledd Iwerddon yn rhoi'r Cytundeb ar waith drwy ddiwygio'i deddfwriaeth ei hunan. Rhagwelir y bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn dod i rym ar 1 Ionawr 2019.

5. Cynnig ar gyfer Gweithredu

5.1. Mekanwaith deddfwriaethol

25. Rydym yn cynnig y dylid gweithredu'r Cytundeb mor fuan ag y bo'n ymarferol, gan ddefnyddio'r fframweithiau deddfwriaethol presennol. Er y byddai modd creu cyfundrefn ddeddfwriaethol newydd ar gyfer gweithredu'r Cytundeb, rydym yn teimlo y byddai hyn yn achosi cymhlethdod diangen ac yn ychwanegu at y corff o ddeddfwriaeth bywyd gwyllt sydd eisoes yn sylweddol.
26. Mae adran 11 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn diogelu pob math o anifail rhag dulliau lladd a chipio penodol. Mae'r adran yn darparu mwy o ddiogelwch ar gyfer rhywogaethau penodol a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf. Mae adran 16 o Ddeddf 1981 yn caniatáu rhan-ddirywiad o'r gwaharddiadau hyn, drwy drwyddedau. Mae holl rywogaethau'r DU y mae'r Cytundeb yn gymwys iddynt, ac eithrio carlymod ac afancod Ewropeaidd, eisoes wedi'u rhestru yn Atodlen 6 ac felly maent wedi'u diogelu rhag y defnydd o drapiau a maglau.

27. Yng Nghymru a Lloegr, rydym yn cynnig y dylid cyflawni ymrwymïadau'r Cytundeb drwy ddiwygio adrannau 11 (gwahardd dulliau penodol o ladd a chipio anifeiliaid gwyllt) ac 16 (pŵer i roi trwyddedau) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
28. Cynigir gwneud diwygiadau tebyg i'r Ddeddf honno fel y mae'n gymwys i'r Alban, a bydd Gogledd Iwerddon yn gwneud diwygiadau tebyg i ddarpariaethau cyfatebol yng Ngorchymyn Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) 1985, er nad yw afancod erioed wedi bod yn bresennol yn Iwerddon yn hanesyddol, ac felly ni fydd Gogledd Iwerddon yn gweithredu'r Cytundeb ar gyfer afancod.
29. Ar gyfer carlymod ac afancod Ewropeaidd, rydym yn cynnig y dylid ond gymhwyso'r darpariaethau hynny yn adran 11(2) o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad sy'n ofynnol o dan y Cytundeb. Mewn perthynas â charlymod ac afancod Ewropeaidd, dim ond y defnydd o drapiau a maglau ar gyfer lladd neu gipio a gaiff eu rheoleiddio, nid dulliau rheoli eraill a gwmpesir gan adran 11(2) ar hyn o bryd³. Felly, rydym yn cynnig y dylid ychwanegu afancod Ewropeaidd a charlymod at Atodlen newydd i'r Ddeddf honno (anifeiliaid na ellir eu lladd na'u cipio mewn trapiau na maglau).
30. Effaith ein dull gweithredu arfaethedig fydd gwahardd y defnydd o bob trap ar gyfer rhywogaethau'r Cytundeb ac, o ganlyniad, dim ond o dan drwydded gan ddefnyddio trapiau sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb y caniateir trapio.
31. Byddwn yn awdurdodi'r defnydd o drapiau y mae Partïon eraill, gan gynnwys Aelod-wladwriaethau eraill, wedi ardystio eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau neu fel arall yn rhoi cyfiawnhad yn ysgrifenedig i Gyd-bwyllgor Rheoli'r Cytundeb dros beidio â gwneud hynny.
32. Bydd Defra yn sicrhau bod y rhestr o drapiau sydd wedi'u hardystio'n rhai sy'n cyrraedd y Safonau ar gael yn gyhoeddus ar gov.uk. Wrth ardystio trapiau, rydym yn cynnig y dylid nodi'r trap, yn ôl gwneuthuriad, model a gweithgynhyrchwr. Pe bai gweithgynhyrchwr trap ardystiedig yn newid byddai angen inni ardystio'r trap 'newydd'. Cyhyd â'u bod wedi'u hadeiladu drwy ddefnyddio'r un dyluniad ac i'r un safonau, bydd y broses ardystio yn un syml (h.y. cyflwyno trap i gadarnhau bod dyluniad ac ansawdd y trap yr un fath, yna ei ychwanegu at restr ardystiedig).
33. Rydym yn cynnig y dylid caniatáu trapio carlymod gan ddefnyddio trapiau sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb o dan drwydded gyffredinol (gweler

³ Yn ogystal â thrapiau a maglau, mae adran 11(2) yn rheoleiddio'r defnydd o unrhyw rwyd, dyfais drydanol ar gyfer lladd neu stynio, sylwedd gwenwynig, sylwedd wedi'i wenwyno neu sylwedd sy'n peri i anifail gysgu, arf awtomatig neu led-awtomatig, dyfais ar gyfer goleuo targed neu ddyfais anelu ar gyfer saethu yn ystod y nos, math o olau artiffisial neu unrhyw ddrych neu ddyfais ddallu arall; cerbyd denu neu gerbyd a yrrir yn fecanyddol sy'n mynd ar drywydd unrhyw anifail gwyllt o'r fath yn uniongyrchol er mwyn gyrru, lladd neu gipio'r anifail hwnnw.

www.gov.uk/guidance/wildlife-licences#types-of-licence) i leihau effaith trwyddedu ar drapwyr ac awdurdodau trwyddedu.

34. O ran rhywogaethau eraill y Cytundeb, byddai trwyddedau'n parhau i gael eu rhoi ar sail unigol, neu, o dan amgylchiadau penodol, o dan drwyddedau dosbarth, hyd yn oed os mai trap ardystiedig y bwriedir ei ddefnyddio.
35. O dan amgylchiadau eithriadol, byddai modd defnyddio trapiau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cytundeb o dan drwydded ar sail unigol yn unol ag Erthygl 10 o'r Cytundeb.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig o weithredu gofynion trwyddedu/gwahardd y Cytundeb?

Os ydych yn anghytuno, rhowch eich rheswm, gan nodi unrhyw ddull gweithredu amgen a ffefrir gennych.

5.2. Trapiau dal yn fyw

36. Wrth werthuso a yw trap dal yn fyw yn cyrraedd y Safonau, mae'r asesiad o drapio heb greulondeb yn ystyried a yw'r anifail sydd wedi'i drapio yn arddangos rhai dangosyddion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad ac anaf.
37. Mae gennym ddata digonol ar y trapiau cawell a ddefnyddir gan amlaf yn y DU i ddal moch daear Ewropeaidd yn fyw er mwyn ardystio eu defnydd o dan y Cytundeb. Mae gennym ddigon o ddata i ardystio model trap cawell ar gyfer carlymod, beleod ac afancod hefyd. Rydym wrthi'n ystyried cael gafael ar ddigon o ddata i ardystio model trap cawell ar gyfer dyfrgwn.
38. I ddechrau, byddwn yn dibynnu ar y modelau uchod ac ardystiadau gan Bartïon eraill yn y Cytundeb (gan gynnwys Aelod-wladwriaethau'r UE) sy'n trapio'r rhywogaethau hyn yn fwy aml. Mae'n debygol y caiff trapiau eraill a ddefnyddir gan drapwyr yn y DU eu hardystio o dan y Cytundeb mewn mannau eraill. Byddai hyn yn golygu y gallwn gymeradwyo'r un trapiau yn y DU heb unrhyw gost i'r llywodraeth, gweithgynhyrchwyr na defnyddwyr terfynol.
39. Os bydd yn rhaid i ddefnyddwyr ddisodli trapiau dal yn fyw nad ydynt yn cydymffurfio y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer y rhywogaethau hyn, efallai y bydd cost ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol o fod yn sylweddol am y rhesymau canlynol:
 - a. Anaml iawn y caiff dyfrgwn, afancod, carlymod a beleod eu dal drwy ddefnyddio trapiau dal yn fyw, felly ni fydd gan drapwyr yn y DU gyflenwad mawr o drapiau y byddai angen cael rhai newydd yn eu lle.

- b. Mae Sefydliad Ffwr Canada wedi ardystio sawl math o drap dal yn fyw ar gyfer afancod. Er mai'r tebyg yw bod y rhain wedi'u hardystio i'w defnyddio ar gyfer afancod Canada (*Castor canadensis*) yn hytrach nag afancod Ewropeaidd (*Castor fiber*), nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y ddwy rywogaeth. Byddai'n rhaid ceisio cytundeb ar ardystio ar y cyd ar gyfer y ddwy rywogaeth gan Gyd-bwyllgor Rheoli'r Cytundeb⁴, ond os sicrheir hyn, bydd y trapiau hyn i afancod ar gael i'w defnyddio gan drapwyr yn y DU.
- c. Yn aml, caiff anifeiliaid sy'n cael eu dal yn fyw eu rhyddhau ar ôl eu dal, sy'n golygu bod asesiadau meddygol addas (er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon iach i'w rhyddhau) eisoes wedi'u cofnodi o bosibl, a bydd modd ardystio rhai modelau o drapiau yn y DU heb fod angen asesu ymhellach a ydynt yn trapio heb greulondeb. Rydym eisoes wedi defnyddio data o'r fath i benderfynu ar gydymffurfiaeth sawl math o drap cawell fel y'i nodir ym mharagraff 3 uchod.
- d. Mae modelau trapiau cawell fel arfer yn debyg i'w gilydd, sy'n golygu na fydd mân wahaniaethau o bosibl yn cael effaith ar allu'r trap i drapio heb greulondeb. Felly, efallai y bydd ardystio un model o drap yn golygu y gellir ardystio dyluniad tebyg heb fod angen asesu ar wahân a yw'n trapio heb greulondeb.
40. Os nad oes digon o ddata ar les ar gael er mwyn ystyried ardystio dyluniad trap, byddem yn cynnig y dylid rhoi trwyddedau unigol gan ddefnyddio'r dibenion rhanddirymu sydd ar gael o dan Erthygl 10 o'r Cytundeb i ganiatáu'r defnydd o drapiau dal yn fyw heb eu cymeradwyo (e.e. trapiau cawell) i drapio'r rhywogaeth dan sylw, nes ein bod wedi casglu digon o ddata lles ar yr anifail sy'n cael ei drapio er mwyn gallu penderfynu a ellir ardystio'r trap yn un sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb.
41. Un o amodau trwydded o'r fath fydd y dylid cynnal asesiad addas o'r gallu i drapio heb greulondeb ar unrhyw anifeiliaid a gaiff eu trapio o dan y drwydded a byddai addasrwydd yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad yn cael ei gynnwys yn y ffurflen asesu.
42. Y disgwyliad yw y byddai'r ymgeisydd am drwydded yn atebol am dalu unrhyw gostau yr eir iddynt er mwyn darparu'r data. Fodd bynnag, bydd rhan neu hyd yn oed y rhan fwyaf o gost asesiad o drapio heb greulondeb eisoes wedi'i hysgwyddo fel rhan o arfer defnyddwyr trapiau dal yn fyw.

⁴ Sefydlwyd o dan delerau'r Cytundeb i'w weinyddu.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer trapiau dal yn fyw?

Os ydych yn anghytuno, rhowch eich rheswm, gan nodi unrhyw ddull gweithredu amgen a ffefrir gennych.

5.3. Trapiau marwol

43. O ran trapiau lladd, cyrhaeddir y Safonau os nad yw'r amser tan anymwybyddiaeth anadferadwy⁵ yn mynd y tu hwnt i'r terfynau amser rhagnodedig.
44. Yr unig rywogaeth a restrir yn y Cytundeb sy'n cael ei dal yn fwriadol mewn trapiau lladd yn y DU yw carlymod. Nid yw'r trap i garlymod a ddefnyddir gan amlaf (math *Fenn*)⁶ yn cyrraedd y Safonau ac, felly, unwaith y byddwn yn gweithredu'r Cytundeb, ni fydd modd ei gymeradwyo i'w ddefnyddio yn eu herbyn mwyach. Trap sbring rhedeg trwodd diben cyffredinol yw trap math *Fenn*, gyda'r nod o ddal anifeiliaid wrth iddynt deithio ar hyd eu llwybrau arferol ar draws y dirwedd.

Argaeledd trapiau lladd carlymod yn y DU

45. Yr unig wlad a gwmpesir gan y Cytundeb heblaw am y DU sydd, hyd y gwyddom, wedi profi trapiau lladd i garlymod yw Canada. Mae Sefydliad Ffwr Canada wedi ardystio mwy nag 20 o drapiau yn rhai sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb o ran carlymod. Fodd bynnag, mae carlymod yn llawer llai yng Nghanada nag yn y DU (tua maint ein gwencïod). Mae tystiolaeth wyddonol o Seland Newydd⁷ ac yna brofion ar drapiau yn y DU yn dangos bod y gwahaniaeth rhwng maint y ddwy is-rywogaeth yn gofyn am safonau trapio gwahanol er mwyn sicrhau lladd heb greulondeb.
46. Ar hyn o bryd, mae Gorchmynion Cymeradwyo Trapiau Sbring a wneir yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Plâu 1954, yn yr Alban o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (yr Alban) 1948 ac yng Ngogledd Iwerddon o dan Orchymyn Bywyd Gwylt (Gogledd Iwerddon) 1985 yn caniatáu'r defnydd o nifer o drapiau i ladd carlymod yn y DU (gweler Tabl 1).
47. Er mai cyfyngedig yw'r data ar y defnydd o drapiau yn y DU, gwyddom nad yw'r rhan fwyaf o'r trapiau cymeradwy hyn yn cael eu gweithgynhyrchu na'u defnyddio mwyach, neu eu bod eisoes wedi'u hasesu yn erbyn meini prawf y Cytundeb. Mae

⁵ Ni themlir poen pan fydd anifail yn anymwybodol.

⁶ Mae tri gweithgynhyrchwr yn gwneud trap o'r un dyluniad yn y bôn, sef Fenn, Solway a Springer.

⁷ www.envirolink.govt.nz/PageFiles/194/140-NIrc15-SnapbackNorthlandFinal.pdf

tystiolaeth o'r asesiadau hyn wedi dangos nad oes unrhyw fodelau o drapiau ar gael ar hyn y bryd yn y DU y dangoswyd eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau ar gyfer carlymod Ewropeaidd gan ddefnyddio ffurf rhedeg trwodd.

48. Sefydlwyd gweithgor technegol gan Defra i nodi trapiau sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb ac sy'n addas i drapio carlymod yn y DU. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, y Gynghrair Cefn Gwlad, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwylt, y Gymdeithas Rostiroedd, Sefydliad Cenedlaethol y Ciperiaid a Sefydliad Tir ac Ystadau'r Alban, yn ogystal â sefydliadau'r llywodraeth (yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, a Gwyddoniaeth a Chyngor Amaethyddiaeth yr Alban).
49. Ochr yn ochr â'r trapiau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer carlymod o dan y Gorchmynion Cymeradwyo Trapiau Sbring, rydym hefyd wedi ystyried ac wedi profi dyluniad sawl trap newydd a all fod yn addas. Mae o leiaf dri model o drap sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb yn debygol o gael eu cymeradwyo i'w defnyddio fel trapiau rhedeg trwodd er mwyn trapio carlymod erbyn dechrau'r cyfnod gweithredu. Mae trapiau newydd eraill a all fod yn addas wrthi'n cael eu datblygu ac, os byddant yn llwyddiannus, cânt eu cymeradwyo maes o law.
50. Rydym ar ddeall drwy ein hymgyngoriadau anffurfiol â rhanddeiliaid y bydd yn her cynhyrchu digon o drapiau newydd wedi'u hardystio o dan y Cytundeb ar gyfer targedu carlymod erbyn y dyddiad gweithredu a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd angen cydbwysedd rhwng gweithredu ein rhwymedigaethau cyfreithiol mor fuan â phosibl, a sicrhau bod digon o drapiau newydd ardystiedig i garlymod ar gael i'w defnyddio. Byddem yn croesawu sylwadau ar y mater hwn yn benodol ynghyd â thystiolaeth ynglŷn â'r amser y disgwylir ei gymryd i weithgynhyrchu trapiau newydd ardystiedig o dan y Cytundeb ar gyfer targedu carlymod.

Trapiau sbring cymeradwy ar hyn o bryd sy'n cydymffurfio

51. Dangoswyd bod rhai o'r trapiau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer carlymod o dan y Gorchmynion Cymeradwyo Trapiau Sbring yn cydymffurfio â'r Safonau ar gyfer carlymod Ewropeaidd a bydd y defnydd ohonynt yn parhau i gael ei ganiatáu o 1 Ionawr 2019 ymlaen (gweler Rhan 1 o Dabl 1 isod).
52. Nid yw trapiau *DOC* na *Goodnature*, ar eu ffurf gymeradwy bresennol fel trapiau ag abwyd, yn effeithiol yn erbyn carlymod yn y DU oherwydd bydd carlymod yn osgoi mynd i mewn i drapiau ag abwyd pan fydd digonedd o fwyd a ffefrir ganddynt ar gael. Mae'r amodau hyn yn cyd-daro â'r cyfnod pan fo'r ymdrech trapio yn ei hanterth er mwyn diogelu adar hela a rhywogaethau eraill sy'n nythu ar y ddaear. Yn wahanol i drapiau *GoodNature*, gall trapiau *DOC* gael eu defnyddio ar ffurf rhedeg trwodd ac rydym wedi llwyddo i benderfynu y gallant fod yn drap sy'n cydymffurfio ar y ffurf hon.

Trapiau sbring cymeradwy ar hyn o bryd a ddefnyddir yn gyffredin ond nad ydynt yn cydymffurfio

53. Rydym wedi profi *BMI Magnum 55, 110* ac *116* a hefyd drap magl *Koro* i gnofilod ac wedi darganfod nad yw'r rhain yn cyrraedd y Safonau ar gyfer carlymod.
54. Dengys data cyhoeddedig ar brofi trapiau o Seland Newydd fod trapiau *Fenn IV* a *VI* (sef y math o drap i garlymod a ddefnyddir yn fwyaf helaeth) yn methu â chyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer carlymod. Yng ngoleuni'r dystiolaeth hon, ni fyddwn yn profi'r rhain na mathau eraill o drapiau sy'n debyg i drapiau *Fenn* (e.e. trapiau *Springer* a thrapiau *Solway*) yn erbyn y Safonau yn y DU.
55. Ni fydd y trapiau hyn sydd ar gael yn gyffredin, ond nad ydynt yn cydymffurfio (a restrir yn Rhan 2 o Dabl 1 isod), yn cael eu cymeradwyo mwyach i'w defnyddio i dargedu carlymod ar ôl mis Rhagfyr 2018.

Trapiau sbring cymeradwy ar hyn o bryd a ddefnyddir yn anaml ac nad ydynt yn cydymffurfio

56. Dylem fod yn cyfyngu ar y defnydd o hyd o drapiau nad ydynt yn cydymffurfio i'r lefel isaf sydd ei hangen er mwyn cynnal ymdrechion trapio carlymod cyn i'r Cytundeb gael ei weithredu. Nid yw gweddill y trapiau cymeradwy i garlymod wedi bod yn cael eu cynhyrchu ers peth amser ac anaml y cânt eu defnyddio i drapio unrhyw rywogaethau targed a ganiateir. Nodir y trapiau hyn yn Rhan 3 o Dabl 1.
57. Hyd yn oed pe bai digon o'r trapiau hyn ar gael ar gyfer asesiad o'u gallu i drapio heb greulondeb (mae angen o leiaf 10), nid ydym yn cynnig y dylid eu profi yn erbyn y Safonau. Byddai gwneud hynny yn achosi problemau lles difrifol a byddai'n groes i'r ffordd rydym yn mynd ati i brofi trapiau. At hynny, ni fyddai'n ddefnydd cyfrifol o arian cyhoeddus i brofi trapiau rydym yn disgwyl yn rhesymol y byddent yn methu.
58. Er y byddai modd parhau i gymeradwyo'r trapiau hyn hyd nes ein bod yn gweithredu'r Cytundeb (y rhagwelwn y bydd hynny ym mis Ionawr 2019, fel y'i nodir uchod), nid ydym o'r farn y gellir cyfiawnhau hyn o gofio nad yw'r trapiau hyn wedi bod yn cael eu gweithgynhyrchu ers peth amser ac mai anaml y cânt eu defnyddio, os o gwbl. O ganlyniad, rydym yn cynnig y dylid tynnu eu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer pob un o'r rhywogaethau targed mor fuan â phosibl.

Tabl 1: Trapiau a gymeradwywyd i garlymod yn un neu fwy⁸ o Orchmynion Cymeradwyo Trapiau Sbring y DU sy'n dangos statws mewn perthynas â'r Safonau.

⁸ Mae pob gweinyddiaeth ddatganoledig yn gwneud ei Gorchmynion Cymeradwyo Trapiau Sbring ei hun a gall y trapiau a gymeradwywyd ganddynt amrywio rhyngddynt ar unrhyw adeg benodol.

Rhan 1: Trapiau sbring cymeradwy sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb

Trap	Statws o ran y Cytundeb
DOC 150	Yn cydymffurfio â'r Cytundeb. Eisoes wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio ar gyfer carlymod. Caiff ei gymeradwyo ar ffurf rhedeg trwodd yn ogystal ag ar ffurf trap ag abwyd.
DOC 200	Yn cydymffurfio â'r Cytundeb. Eisoes wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio ar gyfer carlymod. Caiff ei gymeradwyo ar ffurf rhedeg trwodd yn ogystal ag ar ffurf trap ag abwyd.
DOC 250	Yn cydymffurfio â'r Cytundeb. Eisoes wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio ar gyfer carlymod. Caiff ei gymeradwyo ar ffurf rhedeg trwodd yn ogystal ag ar ffurf trap ag abwyd.
Trap A24 Goodnature i lygod mawr a charlymod	Yn cydymffurfio â'r Cytundeb. Eisoes wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio ar gyfer carlymod.

Rhan 2: Trapiau Sbring na chânt eu cymeradwyo ar gyfer carlymod yn sgil gweithredu'r Cytundeb (y rhagwelir y bydd hynny'n digwydd 1 Ionawr 2019)

Trap	Statws o ran y Cytundeb
BMI Magnum 110	Ddim yn cydymffurfio â'r Cytundeb.
BMI Magnum 116	Ddim yn cydymffurfio â'r Cytundeb.
Kania Trap 2000	Ni wyddys a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb. Cytunwyd â'r gweithgynhyrchwr na chaiff hwn ei brofi am mai anaml, os o gwbl, y caiff ei ddefnyddio ar gyfer carlymod. Ni chaiff ei gymeradwyo ar gyfer carlymod oni fydd y diwydiant yn ariannu'r profion ac yn dangos ei fod yn cydymffurfio.
Kania Trap 2500	Ni wyddys a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb. Cytunwyd â'r gweithgynhyrchwr na chaiff hwn ei brofi am mai anaml, os o gwbl, y caiff ei ddefnyddio ar gyfer carlymod. Ni chaiff ei gymeradwyo ar gyfer carlymod oni fydd y diwydiant yn ariannu'r profion ac yn dangos ei fod yn cydymffurfio.
Fenn Fersiwn IV	Ddim yn cydymffurfio â'r Cytundeb.
Fenn Fersiwn VI	Ddim yn cydymffurfio â'r Cytundeb.
Solway Fersiwn 4	Ni wyddys a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb. Dyluniad tebyg i drapiau Fenn.
Solway Fersiwn 6	Ni wyddys a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb. Dyluniad tebyg i drapiau Fenn.

Springer Rhif 4	Copi o Fenn Fersiwn IV felly nid yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb.
Springer Rhif 6	Copi o Fenn Fersiwn VI felly nid yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb.
Trap tiwb WCS	Ni wyddys a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb. Anaml y caiff ei ddefnyddio ar gyfer carlymod. Wedi'i ardystio yng Nghnada ond mae angen iddo gael ei brofi gan ddefnyddio carlymod Ewropeaidd. Ni chaiff ei gymeradwyo ar gyfer carlymod oni fydd y diwydiant yn ariannu'r profion.
Rhan 3: Bydd cymeradwyaeth Trapiau Sbring yn cael ei thynnu'n ôl mor fuan â phosibl.	
Trap	Statws o ran y Cytundeb
Fenn Fersiwn I	Ni chaiff ei ddefnyddio'n gyffredin ac mae bron yn sicr nad yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb.
Fenn Fersiwn II	Ni chaiff ei ddefnyddio'n gyffredin ac mae bron yn sicr nad yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb.
Fenn Fersiwn III	Ni chaiff ei ddefnyddio'n gyffredin ac mae bron yn sicr nad yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb.
Imbra Fersiwn I	Ddim yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin.
Imbra Fersiwn II	Ddim yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin.
Trap Juby	Ddim yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin.
Trap Lloyd	Ddim yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin.
Trap Sawyer	Ddim yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin.

5.4. Trapiau marwol amlrywogaeth

59. Trapiau sbring rhedeg trwodd a ddefnyddir yn bennaf fel trapiau marwol i garlymod, gyda'r nod o ddal anifeiliaid wrth iddynt deithio drwy eu llwybrau arferol ar y dirwedd. Efallai nad yw'r trapiwr yn anelu at ddal rhywogaeth benodol wrth osod y trap, ond dal nifer o rywogaethau sy'n bla y mae'r trap wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer.

60. Bydd y trapiau hynny a ddefnyddir yn gyffredin, gan gynnwys trapiau sy'n debyg i drapiau *Fenn*, a ganiateir ar hyn o bryd at ddiben trapio carlymod yn y DU, yn parhau i fod ar gael at y diben hwnnw nes bod y Cytundeb wedi'i weithredu ym mis Ionawr 2019.

61. Pan gaiff y Cytundeb ei weithredu yn 2019, ni fydd carlymod yn rhywogaeth darged a ganiateir mwyach ar gyfer y trapiau hynny a restrir yn Rhan 2 o Dabl 1. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn atal y defnydd o'r trapiau hynny yn erbyn y rhywogaethau

eraill y maent wedi'u cymeradwyo ar eu cyfer (e.e. gwencïod, llygod mawr, cwingod, gwiwerod ac ati).

62. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr trapiau sy'n gosod trapiau ar gyfer y rhywogaethau hynny mewn lleoliadau lle y gellir dal carlwm, yn dibynnu ar y risg o ddal carlwm, ddefnyddio trapiau sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb. Bydd yr ystyriaeth hon yn rhan o'r asesiad risg y mae defnyddwyr trapiau eisoes yn ei gynnal wrth asesu'r risg o ddal rhywogaethau nas targedir, a bydd gweithgarwch gorfodi troseddau trapio yn aros yr un fath.
63. Mae hyn yn golygu, drwy wella'r safonau o ran trapio carlymod heb greulondeb o dan y Cytundeb, fod goblygiadau posibl o ran trapio rhywogaethau eraill lle y defnyddir trapiau amlrywogaeth. Os gosodir trap amlrywogaeth nad yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb i ddal rhywogaeth heblaw carlymod, ond bod carlwm yn cael ei ddal, mae'n bosibl bod trosedd wedi'i chyflawni. Byddai hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gan gynnwys y camau a gymerwyd i sicrhau na châi carlymod eu dal.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer trapiau marwol?

Os ydych yn anghytuno, rhowch eich rheswm, gan nodi unrhyw ddull gweithredu amgen a ffefrir gennych.

5.5. Gofynion hyfforddi

64. Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i drapwyr gael eu hyfforddi i ddefnyddio dulliau trapio diogel ac effeithiol nad ydynt yn achosi creulondeb, gan gynnwys dulliau newydd wrth i'r rhain gael eu datblygu. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi ei fod yn fodlon y byddai'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau a roddir gyda thrapiau pan gânt eu gwerthu yn bodloni'r gofyniad hwn. Felly, rydym yn fodlon y byddai amodau defnydd trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i drapiwr ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr, a'r cyfryw gyfarwyddiadau eraill a ragnodir yn y drwydded ac (os mai trap sbring cymeradwy ydyw) y Gorchymyn Cymeradwyo Trap Sbring, yn ddigonol i fodloni'r gofyniad hwn o dan y Cytundeb.
65. Ar gyfer trapiau a maglau cartref, rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i ddefnyddwyr ddilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr ar gyfer y dyluniad ardystiedig, neu os nad oes unrhyw gyfarwyddiadau o'r fath, eu defnyddio yn unol â'r amodau defnydd a nodir yn y drwydded sy'n caniatáu'r trapio.

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r gofynion hyfforddiant?

Os ydych yn anghytuno, rhowch eich rheswm, gan nodi unrhyw ddull gweithredu amgen a ffefrir gennych.

5.6. Gofynion i weithgynhyrchwyr

66. Er mwyn cydymffurfio â'r Cytundeb, bydd angen i weithgynhyrchwyr sicrhau bod eu trapiau wedi'u nodi'n addas fel rhai o wneuthuriad a model ardystiedig a'u bod yn rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer eu gosod yn briodol, eu gweithredu'n ddiogel a'u cynnal a'u cadw, os ydynt am iddynt gael eu hardystio ar gyfer defnydd posibl o dan drwydded. Bydd trwyddedau a (os mai trap sbring cymeradwy ydyw) Gorchmynion Cymeradwyo Trapiau Sbring yn cynnwys amodau a fydd yn golygu bod rhwymedigaeth ar drapwyr i ddefnyddio trapiau yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr, gan ddarparu'n benodol ar gyfer unrhyw eithriadau.
67. Nid yw'r Cytundeb yn rhagnodi sut y dylai trapiau ardystiedig gael eu nodi na'u marcio. Fodd bynnag, os mai diben y marc yw cynorthwyo'r trapiwr yn y maes (wrth ystyried pa drap i'w ddefnyddio) rydym o'r farn bod angen iddo fod yn barhaol ac yn ddarllenadwy ar ôl blynyddoedd o wasanaeth trapio. Yn ddelfrydol, dylai'r marc gael ei stampio neu ei foglynnu ar blât adnabod sydd wedi'i atodi'n barhaol (e.e. wedi'i rybedu) i'r trap ei hun. Mae llawer o weithgynhyrchwyr eisoes yn marcio eu trapiau'n barhaol gyda data megis eu henw. Felly, rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i weithgynhyrchwyr nodi trapiau ardystiedig drwy ddefnyddio marc parhaol. Fodd bynnag, y gweithgynhyrchwr a fyddai'n cael dewis sut y dylid cyflawni hyn (h.y. boglynnu ar y trap ei hun neu ddefnyddio plât adnabod atodedig).
68. Gosodir y gofyniad hwn ar weithgynhyrchwyr ac rydym yn cynnig y dylai, felly, ond bod yn gymwys i drapiau a weithgynhyrchir ar ôl i'r Cytundeb gael ei weithredu yn y DU. Ni fydd angen i drapiau sydd eisoes yn nwylo dosbarthwyr neu drapwyr ac sy'n cydymffurfio â'r Cytundeb gael eu marcio (er y gall trapwyr ddewis nodi'r trap wrth dagio eu trapiau). Cynigir mai un o amodau ardystiad fydd bod yn rhaid i'r trap fod wedi'i nodi'n addas fel un sy'n cyrraedd y Safonau os caiff ei weithgynhyrchu ar ôl y dyddiad gweithredu.
69. Ceir hyblygrwydd o ran sut mae gweithgynhyrchwyr yn rhoi cyfarwyddiadau. Er enghraifft, gellid rhoi'r cyfarwyddiadau gyda'r trap pan gaiff ei brynu neu eu darparu ar-lein, ond rydym o'r farn y dylent barhau i fod ar gael drwy law'r gweithgynhyrchwr drwy gydol oes y trap, oherwydd gall trapiau gael eu defnyddio am sawl blwyddyn a gall cyfarwyddiadau gael eu difrodi neu eu colli dros amser. Mae pob gweithgynhyrchwr/manwerthwr y gwnaethom siarad â hwy eisoes yn darparu'r wybodaeth hon, felly byddem yn rhagweld na fyddai unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r gofyniad hwn.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r gofynion marcio trapiau?

Os ydych yn anghytuno, rhowch eich rheswm, gan nodi unrhyw ddull gweithredu amgen a ffeirir gennych.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r gofynion ynglŷn â rhoi cyfarwyddiadau trapio?

Os ydych yn anghytuno, rhowch eich rheswm, gan nodi unrhyw ddull gweithredu amgen a ffeirir gennych.

6. Effeithiau

70. Bydd y Cytundeb yn arwain at welliannau o ran lles rhai anifeiliaid sy'n cael eu dal yn rheolaidd at ddibenion rheoli plâu a diogelu bywyd gwyllt. Mae gan y DU system gymeradwyo sefydledig ar gyfer trapiau sbring; yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Plâu 1954, yn yr Alban o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (yr Alban) 1948 ac yng Nogledd Iwerddon o dan Orchymyn Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) 1985. Ers 2011 mae'r DU wedi cymhwyso safon trapio heb greulondeb y Cytundeb wrth gymeradwyo pob trap sbring newydd o dan gyfundrefn y Ddeddf Plâu, ac ar gyfer pob rhywogaeth darged.
71. Mae'r meini prawf y mae angen i drapiau sbring eu bodloni er mwyn cael eu cymeradwyo o dan gyfundrefn y Ddeddf Plâu wedi datblygu dros y 63 mlynedd ers i'r Ddeddf Plâu gael ei chyflwyno. Nes iddynt gael eu hailbrofi'n ddiweddar, nid oedd trapiau sbring a gymeradwywyd ar gyfer carlymod yn y 1950au i'r 1970au erioed wedi cael eu hasesu i safon trapio heb greulondeb y Cytundeb. Mae gweithredu'r Cytundeb wedi rhoi cyfle i adolygu'r trapiau hyn a sicrhau safonau lles cyson ar gyfer trapiau cymeradwy.
72. Yn y DU, y brif effaith gadarnhaol fydd i garlymod, ond gan y bydd rheolwyr adar hela ac eraill yn aml yn defnyddio'r un trapiau i dargedu nifer o rywogaethau ysglyfaethus bach er mwyn diogelu adar hela a rhywogaethau eraill o adar sy'n nythu ar y ddaear, bydd effeithiau cadarnhaol canlyniadol i rywogaethau eraill, gan gynnwys gwencïod, gwiwerod a llygod mawr.
73. Bydd yn rhaid i ddefnyddwyr trapiau sicrhau eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r trapiau a'r dulliau trapio diogel ac effeithiol nad ydynt yn achosi creulondeb. Bydd yn rhaid i weithgynhyrchwyr sicrhau bod trapiau'n cael eu nodi'n briodol a'u bod yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer eu gosod yn briodol, eu gweithredu'n ddiogel a'u cynnal a'u cadw.

74. Bydd yn rhaid i fewnforwyr ac allforwyr sicrhau bod tystysgrif tarddiad yn gysylltiedig â chrwyn a chynhyrchion penodol eraill sy'n dod o rywogaethau wedi'u trapio a restrir yn y Cytundeb, sy'n dangos eu bod yn tarddu o diriogaeth un o bartion eraill y Cytundeb. Fodd bynnag, mae'r gofyniad hwn eisoes yn bodoli o dan gyfraith yr UE ([Rheoliad y Cyngor \(GEE\) Rhif 3254/91](#)) ac felly ni fydd yn arwain at unrhyw effeithiau newydd.
75. Efallai y bydd y Cytundeb yn effeithio ar nifer o grwpiau eraill, gan gynnwys busnesau megis manwerthwyr, gweithgynhyrchwyr a mewnforwyr trapiau, cwmnïau rheoli plâu, ystadau gwledig/ffermydd, a mewnforwyr cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid wedi'u trapio. Efallai y bydd hefyd yn effeithio ar unigolion preifat (e.e. ceidwaid heidiau bach o ddofednod) sydd am ddal y rhywogaethau a gwmpesir gan y Cytundeb i raddau llai. Fodd bynnag, gan mai'r brif effaith fydd colli bron bob math o drap i garlymod, y rhai sy'n wynebu'r effaith fwyaf fydd y sector rheoli anifeiliaid hela, sy'n dal carlymod yn rheolaidd ac ar raddfa helaeth er mwyn diogelu adar hela. Yn sgil gweithredu'r Cytundeb, byddant wedi'u cyfyngu i ddefnyddio trapiau sy'n cydymffurfio neu, o dan amgylchiadau eithriadol, ddirymiad fesul achos ar gyfer rhai nad ydynt yn cydymffurfio.
76. Nodir effeithiau economaidd amcangyfrifedig gweithredu'r Cytundeb yn yr asesiad o'r effaith (gweler adran 6.1). Cyfrifir y bydd costau cychwynnol o tua £1.1 miliwn i gyd. Cost bontio untro i giperiaid ydyw, er mwyn prynu trapiau sy'n cyrraedd y Safonau a nodir yn y Cytundeb yn lle trapiau nad ydynt yn cydymffurfio. Mae costau parhaus yn debygol o fod yn fach iawn; unwaith bod trap wedi'i brynu, bydd yn para am flynyddoedd lawer ac ni fydd angen prynu trapiau sy'n cydymffurfio â'r Safonau yn amlach na'r hen drapiau.

6.1. Yr asesiad o'r effaith

77. Mae'r Asesiad o'r Effaith yn ystyried costau a manteision gweithredu'r Cytundeb.
78. Mae'n ystyried tri opsiwn:
- Opsiwn 0: Senario sylfaenol – gwneud dim byd.
 - Opsiwn 1: Opsiwn a ffefrir – mesurau rheoleiddio.
 - Opsiwn 2: Mesurau amgen yn lle rheoleiddio.
79. Daw'r asesiad o'r effaith i'r casgliad y bydd yn costio cyfanswm o tua £1.1 miliwn i'r diwydiant rheoli anifeiliaid hela bontio i gydymffurfio â'r Cytundeb, gan gynnwys cost prynu trapiau newydd yn lle'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio, costau ymgyswrtio a chostau defnyddio.
80. Mae'r tybiaethau allweddol a wnaed fel a ganlyn:

- a) Caiff rhai trapiau eu cymeradwyo i'w defnyddio gan wledydd eraill a gwmpesir gan y Cytundeb y gellir eu mabwysiadu heb unrhyw gost yn y DU.
- b) Dim ond 20% o fasnach mewn trapiau lladd (ac felly ffigurau gwerthiannau blynyddol cofnodedig) sy'n ymwneud â'r sector rheoli anifeiliaid hela.
- c) Mae trap yn para 10 mlynedd ar gyfartaledd.
- d) Fel arfer, ceir cyfradd prynu trapiau newydd o 10% y flwyddyn ond, at ddibenion gweithredu'r Cytundeb, bydd yn rhaid prynu trapiau newydd yn lle'r stoc gyfan o drapiau nad ydynt yn cydymffurfio.
- e) Gall trapiau sy'n cydymffurfio gymryd lle trapiau nad yn cydymffurfio ar sail gyfatebol.
- f) Bydd angen yr un nifer o drapiau newydd er mwyn dal yr un nifer o anifeiliaid.
- g) Bydd trap newydd addas yn costio tua £17.00 yr uned neu tua dwbl pris cost gyfartalog trapiau presennol nad ydynt yn cydymffurfio.
- h) Targedir dwy ran o dair o weithgarwch trapio ciperiaid yn uniongyrchol at garlymod.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu mewn perthynas â'r asesiad o'r effaith?

Os ydych yn anghytuno, rhowch eich rheswm, gan nodi unrhyw ddull gweithredu amgen a ffefrir gennych.

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â chasgliadau'r asesiad o'r effaith?

Os ydych yn anghytuno, rhowch eich rheswm, gan nodi unrhyw dystiolaeth ategol.

7. Casglu tystiolaeth

- 81. Yn yr asesiad o'r effaith, gwnaethom dybiaethau allweddol y mae angen eu profi yn ystod yr ymgynghoriad.
- 82. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw ddata ychwanegol a allai lywio'r asesiad o'r effaith, byddem yn ddiolchgar i gael y wybodaeth honno. Rydym hefyd yn awyddus iawn i gael atebion i'r cwestiynau canlynol:

Cwestiwn 9: Pa gostau hyfforddiant ychwanegol y gallwch chi neu'r rhai a gynrychiolir gennych fynd iddynt o ganlyniad i weithredu'r Cytundeb?

Nodwch y gost ychwanegol hon mewn £

Cwestiwn 10: Pa gostau ychwanegol y byddwch chi neu'r rhai a gynrychiolir gennych yn mynd iddynt o bosibl o ganlyniad i weithredu gofynion y Cytundeb i weithgynhyrchwyr, gan gynnwys costau yr eir iddynt mewn perthynas â newid dyluniadau a chyfarwyddiadau a darparu nodau adnabod addas?

Nodwch y gost ychwanegol hon mewn £

Cwestiwn 11: Beth yw gwneuthuriad a modelau'r trapiau rydych chi neu'r rhai a gynrychiolir gennych yn eu defnyddio, a faint ohonynt a ddefnyddir?

Cwestiwn 12: Yn fras, faint o bob un o'r rhywogaethau targed a ganiateir rydych chi neu'r rhai a gynrychiolir gennych yn eu dal drwy ddefnyddio'r trapiau hyn mewn blwyddyn arferol?

Rhowch gyfanswm y rhywogaethau targed a ganiateir a ddaliwyd fesul gwneuthuriad a model (nid y nifer a ddaliwyd fesul trap unigol).

Cwestiwn 13: Pa mor aml mewn blynyddoedd rydych chi neu'r rhai a gynrychiolir gennych yn prynu trapiau newydd ar gyfer gwneuthuriad a model penodol (pa mor hir yw ei oes weithredol)?

Peidiwch â chynnwys trapiau sydd gennych chi neu'r rhai a gynrychiolir gennych ond nad ydynt yn cael yn eu defnyddio mwyach.

Cwestiwn 14: Yn fras, faint o bob un o rywogaethau'r Cytundeb heblaw carlymod a ddaliwyd gennych chi neu'r rhai a gynrychiolir gennych y llynedd?

Cwestiwn 15: Beth oedd gwneuthuriad a model y trapiau a ddefnyddiwyd gennych?

Cwestiwn 16: Pa drefniadau trap/twnnel sy'n bwysicaf i chi wrth drapio carlymod?

Cwestiwn 17: A ydych yn gosod abwyd neu lithiau yn y twnnel?

Cwestiwn 18: A ydych yn defnyddio bafflau/cyfyngwyr i atal rhywogaethau nas targedir rhag mynd i mewn i'r twnnel (allanol) neu i dywys rhywogaethau targed drwy'r trap (mewnol)?

Cwestiwn 19: Sut rydych yn prynu'ch trapiau (marchnad ar y rhyngwyd, manwerthwr yn y DU, manwerthwr tramor ac ati)?

Cwestiwn 20: Faint o arian mewn £ a wariwyd gennych ar drapiau y llynedd, yn ôl eich amcangyfrif chi?

Nodwch mewn £

Cwestiwn 21: Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud, sy'n berthnasol i'ch defnydd o drapiau yn erbyn y rhywogaeth dan sylw.

8. Ymateb

8.1. Pwy fydd â diddordeb mewn ymateb?

83. Mae hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus sydd ar agor i bawb â diddordeb mewn gwneud sylwadau. Dylai fod o ddiddordeb penodol i'r rhai sydd â rheswm dros ddal carlymod, gan gynnwys ciperiaid, ffermwyr, rheolwyr plâu ac asiantaethau cadwraeth, yn ogystal â busnesau megis manwerthwyr, gweithgynhyrchwyr a mewnforyr trapiau, cwmnïau rheoli plâu, ystadau gwledig/ffermydd, a mewnforyr crwyn a chynhyrchion sy'n dod o'r rhywogaethau a restrir yn y Cytundeb, yn ogystal â sefydliadau lles anifeiliaid.

8.2. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

84. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am chwe wythnos o 19 Mawrth 2018 hyd at ganol nos 30 Ebrill.

85. A wnewch chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar-lein drwy ddefnyddio system ymgynghori Citizen Space: <https://consult.defra.gov.uk/wildlife-management/implementing-aihts-humane-trapping/>.

86. Os na allwch ddefnyddio system ymgynghori Citizen Space, a wnewch chi ymateb drwy ddefnyddio'r fersiwn y gellir ei hargraffu a gyhoeddir ar y cyd â'r ddogfen hon a'i hanfon i

AIHTS Consultation
Wildlife Management and Crime Team
Department for Environment, Food and Rural Affairs

Horizon House,
Floor 2,
Deanery Road,
Bristol,
BS1 5AH

Neu drwy e-bost i: AIHTSConsultation@defra.gsi.gov.uk

8.3. Cyfrinachedd a diogelu data

87. Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi a'i osod ar wefan y llywodraeth yn: www.gov.uk/defra. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau a sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.
88. Mae'n bosibl y caiff gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, ei rhyddhau i'r cyhoedd ar gais, yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'n bosibl y bydd Defra hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion i'r ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn www.gov.uk/defra.
89. Os hoffech i'ch ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol fel eich enw a ddarperir gennych, gael ei thrin yn gyfrinachol, a wnewch chi nodi'n glir yn ysgrifenedig pam bod angen i chi gadw'r manylion hyn yn gyfrinachol wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Os byddwn yn cael cais am y wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y gellir sicrhau cyfrinachedd bob amser. Fodd bynnag, ni fydd Defra yn caniatáu unrhyw dor-cyfrinachedd diangen nac yn gweithredu yn groes i'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG ei ystyried yn gais cyfrinachedd ynddo'i hun.
90. Bydd Defra yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda thrydydd parti o ddadansoddwyr allanol a gyflogir ar gontract at ddibenion dadansoddi ymatebion a darparu adroddiad.
91. Defra yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych, ac mae Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra, sy'n nodi eich hawliau mewn perthynas â'r ffordd yr ymdrinnir â'ch data personol, ar gael yn: [//www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter](http://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter).

92. Caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal yn unol â'r "Egwyddorion Ymgynghori" fel y'u nodir yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio sydd ar gael yn:
<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

93. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, dylid eu hanfon at:

Consultation Co-ordinator
Area 8A, 8th Floor,
Nobel House,
17 Smith Square,
London,
SW1P 3JR.

Neu drwy e-bost: consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk.

8.4. Y camau nesaf

94. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal am chwe wythnos. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos i'r ymgynghoriad ddod i ben.